

Deall a mynd i'r afael â rhwystrau a hwyluswyr lefelau brechu rhag y ffliw a COVID-19 ymysg gweithwyr y GIG yng Nghymru:

Mewnwelediadau ansoddol ac ymyriadau
a gyd-gynhyrchwyd



Awduron

Dr Rachael Thorneloe¹, Dr Martin Lamb¹, Dr Caroline Jordan¹, Dr Holly Wilcockson¹,
Dr Alisha Davies², Claire Beynon², Daniel Clayton³, Dr Diana Bright², Yr Athro Madelynne Arden¹

¹ Canolfan Gwyddor Ymddygiad a Seicoleg Gymhwysol (CeBSAP) Prifysgol Sheffield Hallam

² Iechyd Cyhoeddus Cymru

³ Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Cyllidwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydliad GIG sy'n darparu cyngor a gwasanaethau iechyd cyhoeddus annibynnol yn broffesiynol i ddiogelu a gwella iechyd a lles y boblogaeth yng Nghymru.

Ariannwyd cynhyrchu'r adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Gweithiodd yr awduron a ariannwyd ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, fodd bynnag, ni ddylid cymryd yn ganiataol bod y safbwyntiau yn yr adroddiad hwn yn cyfateb â safbwyntiau Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

© 2021 Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid nodi cydnabyddiaeth i'r Sefydliad Iechyd a Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint yn y drefn deipograffyddol, y dyluniad a'r diwyg yn perthyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyswllt:

Rachael Thorneloe, PhD
Uwch Gymrawd Ymchwil
Canolfan Gwyddor Ymddygiad a Seicoleg Gymhwysol (CeBSAP)
Adran Seicoleg, Cymdeithaseg a Gwleidyddiaeth
Prifysgol Sheffield Hallam
1.18 Heart of the Campus | Collegiate Crescent | Sheffield | S10 2BQ
E-bost: Rachael.Thorneloe@shu.ac.uk

ISBN 978-1-78986-154-509

icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/

Is-adran Ymchwil a Gwerthuso
Cyfarwyddiaeth Data, Gwybodaeth ac
Ymchwil Iechyd Cyhoeddus
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

E-bost: ICC.Ymchwil@wales.nhs.uk

 @IechydCyhoeddus @PHREWales

 /IechydCyhoeddusCymru

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Mae llwyddiant unrhyw raglen frechu rhag clefydau trosglwyddadwy yn dibynnu ar y nifer o bobl sy'n manteisio arni. Cynigir brechlyn fflw blynyddol i staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) i'w diogelu nhw a'u cleifion. Er gwaethaf sawl ymgyrch fflw, derbyniodd llai na 55% o staff GIG Cymru eu brechlyn yn 2018/19. Cynigiwyd y brechlyn COVID-19 i staff y GIG o fis Rhagfyr 2020. Ar y 14eg o Fedi 2021, cadarnhawyd y bydd y brechlyn atgyfnerthu COVID-19 yn cael ei gynnis i grwpiau blaenoriaeth, gan gynnwys gweithwyr iechyd a gofal y rheng flaen. Mae gwir angen adnabod y rhwystrau a'r hwyluswyr i lefelau brechu rhag y fflw a COVID-19 fel bod modd rhoi ymyriadau yn eu lle i gefnogi lefelau brechu ymysg gweithwyr y GIG yng Nghymru ac, yn sgil hynny, lwyddiant y rhaglen brechu staff. Er mwyn deall ffactorau perthnasol i lefelau brechu ymysg gweithwyr y GIG, rhaid i ni ddeall yn gyntaf beth yw Galluoedd, Cyfleoedd a Chymhellion pobl.

Bwriad yr astudiaeth hon oedd archwilio'r rhwystrau a'r hwyluswyr i lefelau brechu rhag y fflw a COVID-19 ymysg gweithwyr y GIG yng Nghymru a chyd-gynhyrchu ymyriadau newydd gyda gweithwyr y GIG er mwyn cefnogi lefelau brechu.

Trosolwg methodolegol

Roedd y prosiect yn cynnwys dau gam gyda gweithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM). Yng Ngham 1 fe gynhaliwyd 36 o gyfweiliadau gyda gweithwyr BIPCTM er mwyn archwilio'r rhwystrau a'r hwyluswyr i lefelau brechu rhag y fflw a COVID-19. Yn dilyn hynny, gan ddefnyddio canfyddiadau Cam 1, cynhaliwyd gweithdai cyd-gynhyrchu Cam 2 gyda BIPCTM er mwyn cynllunio ymyriadau i gefnogi lefelau brechu rhag y fflw a COVID-19.



Canfyddiadau

Canfuwyd bod nifer o ffactorau allweddol yn gysylltiedig â lefelau brechu rhag y fflw ymysg gweithwyr BIPCTM.

Adroddodd y cyfranogwyr â lefelau uchel (yn derbyn ≥ 3 frechiad fflw rhwng 2017 – 2021) o gael eu brechu:

- Eu bod nhw'n disgwyl canlyniadau negyddol pe bydden nhw'n bersonol yn dal y fflw, gan gynnwys y posibilrwydd o'i drosglwyddo i gleifion a chydweithwyr.
- Yr angen cydnabyddedig i dderbyn y brechlyn pan fyddai'n cael ei gynnig iddynt, i ddiogelu eu hunain, eraill (e.e. cleifion, anwyliaid, cydweithwyr) a'r GIG.
- Canlyniadau cadarnhaol derbyn y brechlyn fflw a'r diffyg pryderon ynglŷn â derbyn y brechlyn eu hunain.

Adroddodd y cyfranogwyr â lefelau isel (yn derbyn ≤ 2 frechiad fflw rhwng 2017 - 2021) o gael eu brechu:

- Bod COVID-19 wedi cynyddu eu dirnadaeth o'u hangen personol i gael eu brechu rhag y fflw er mwyn eu diogelu nhw eu hunain ac eraill.
- Ynglŷn â'u pryderon ynghylch y brechlyn fflw a'r canlyniadau negyddol ymddangosiadol posibl o'i dderbyn, gan gynnwys effaith sgil effeithiau tymor byr ar eu gallu i weithio a'u gweithgareddau hamdden.

Trafododd y ddau grŵp o gyfranogwyr y gefnogaeth a dderbyniwyd gan eu cyflogwr er mwyn derbyn eu brechlyn.

Y ffactorau allweddol yn gysylltiedig â lefelau brechu rhag COVID-19 oedd:

- Adroddodd cyfranogwyr am yr angen uchel ymddangosiadol i dderbyn y brechlyn COVID-19 i'w diogelu nhw eu hunain, eraill, a'r GIG.
- Trafododd rhai cyfranogwyr y ffaith iddynt dderbyn cefnogaeth gan eu cyflogwr er mwyn derbyn eu brechlyn COVID-19, gan gynnwys cefnogaeth i gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i dderbyn y brechlyn a gwella o unrhyw sgil effeithiau.

Awgryma ein canfyddiadau bod angen i ni gynyddu'r cymhelliant i gael y brechlyn fflw a COVID-19 a rhoi cynlluniau yn eu lle i sicrhau'r cyfleoedd cymdeithasol gorau:

- Cynyddu'r ddirnadaeth o'r angen am y brechlyn fflw a'r brechlyn COVID-19 i ddiogelu eu hunain, eraill, a'r GIG.
- Cynyddu'r ddirnadaeth o ganlyniadau cadarnhaol derbyn y brechlyn fflw a brechlyn COVID-19, i'w diogelu nhw eu hunain, eraill, a'r GIG.
- Mynd i'r afael â'r ddirnadaeth o ganlyniadau negyddol neu ansicr derbyn y brechlyn fflw a'r brechlyn COVID-19 a chefnogi pobl i reoli unrhyw ganlyniadau negyddol posibl.
- Sicrhau bod pobl yn derbyn cefnogaeth gan y cyflogwr er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ac i dderbyn eu brechlynnau gydag amser i wella o unrhyw sgil effeithiau.

Argymhellion

Yn seiliedig ar ganlyniadau gweithdai cyd-gynhyrchu Cam 2, rydym yn argymhell parhau i ddefnyddio negeseuon a deunydd cyfathrebu sy'n seiliedig ar wyddor ymddygiad i fynd i'r afael â'r prif rwystrau i lefelau brechu rhag y fflw a COVID-19 yn nhymor 2021/2022 a thu hwnt.

Gallai negeseuon a deunydd cyfathrebu yn seiliedig ar wyddor ymddygiad fynd i'r afael â'r rhwystrau canlynol:

- Cynyddu'r ddirnadaeth o werth a budd y brechlyn fflw, i bob grŵp staff.
- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gael eu brechu, gan gynnwys sut, ble a phryd i dderbyn y brechlyn fflw.
- Mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â sgil effeithiau posibl a'u heffaith.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r ffaith fod cydweithwyr wedi derbyn y brechlyn fflw (h.y. 'pobl fel fi').

Awgrymwn fod negeseuon a deunydd cyfathrebu newydd yn cynnwys y canlynol:

- Ystod o negeseuon wedi eu geirio'n gadarnhaol sy'n pwysleisio gwerth a budd y brechlynnau.
- Ystod o negeseuon wedi eu geirio'n gadarnhaol sy'n pwysleisio gwahanol resymau dros dderbyn brechlyn, e.e. i ddiogelu eich hunan, diogelu anwyliaid (e.e. teulu, ffrindiau), diogelu cleifion, diogelu cydweithwyr, diogelu'r GIG.
- Sicrhau bod negeseuon yn cynnwys delweddau a negeseuon sy'n cynrychioli gwahanol grwpiau staff (e.e. staff clinigol ac anghlinigol) er mwyn cyfleu bod 'pobl fel fi' yn derbyn brechlynnau.
- Sicrhau bod negeseuon yn cynnwys gwybodaeth am sut, ble a phryd y gallant dderbyn eu brechlynnau, yn ogystal â dolenni i ragor o wybodaeth a chefnogaeth ynglŷn â'r brechlynnau (e.e. defnyddio dolenni i adnoddau BIPCTM).
- Sicrhau bod negeseuon yn atgyfnerthu bod brechlynnau yn ddiogel ac effeithiol, a mynd i'r afael â phryderon am unrhyw sgil effeithiau posibl a'u heffaith, gan gynnwys dolenni i adnoddau dibynadwy am ragor o wybodaeth a chefnogaeth.
- Sicrhau bod negeseuon yn defnyddio ieithwedd hygyrch.
- Sicrhau bod logos a brandio penodol BIPCTM yn cael eu cynnwys yn y negeseuon.

Awgrymwn y ffurfiau a'r dulliau canlynol o gyflwyno'r negeseuon:

- Negeseuon ysgrifenedig.
- Fideos byrion (unigolion yn siarad).
- Sicrhau bod negeseuon yn cyrraedd pob grŵp staff trwy ddefnyddio ystod o ddulliau cyflwyno (e.e. y cyfryngau cymdeithasol, posteri wedi eu lamineiddio, arbedwyr sgrîn cyfrifiadurol).
- Dylid gosod negeseuon mewn mannau lle bydd nifer uchel o bobl o bob grŵp staff yn eu gweld.
- Rhaid ystyried sut caiff negeseuon eu rhannu â gweithwyr ar draws gwahanol leoliadau BIPCTM, er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr yn ymwybodol o gyfleoedd i dderbyn brechlynnau a gwerth a budd y brechlyn iddyn nhw.

Gellid gweithredu'r awgrymiadau uchod, o bosibl, o fewn tymor brechu 2021/22. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r gweithdai cyd-gynhyrchu, fe wnaethom hefyd adnabod awgrymiadau y gellid eu gweithredu yn y dyfodol ond y byddai angen rhagor o gynllunio ac adnoddau er mwyn eu gweithredu. Ar gyfer tymhorau brechu yn y dyfodol, fe awgrymwyd y gellid ddarparu cefnogaeth wyneb yn wyneb i weithwyr BIPCTM er mwyn cynorthwyo i gefnogi lefelau brechu rhag y fflw a COVID-19. Byddai hyn yn darparu cyfle i addysgu a darbwyllo pobl ynghylch gwerth a budd brechlynnau, canfod a mynd i'r afael â phryderon ynglŷn ag unrhyw ganlyniadau negyddol posibl, darparu enghraifft (model rôl) i bobl eu hefelychu, a galluogi pobl i dderbyn eu brechlyn trwy gynyddu'r cyfleoedd i wneud hynny, neu leihau'r rhwystrau. Credwn fod hwn yn ymyriad addawol i'w ystyried yn y dyfodol. Gallai'r ymyriad hwn adeiladu ar gynlluniau sydd eisoes yn eu lle (e.e. 'cydweithwyr sy'n brechu') neu ddatblygu rhai newydd (e.e. 'eiriolwyr staff'). Fodd bynnag, nid yw'n debygol y bydd modd i bobl gynnig y math hwn o gefnogaeth heb hyfforddiant ychwanegol. Rydym yn argymhell cyd-gynhyrchu deunydd hyfforddi ac adnoddau newydd i gynorthwyo cydweithwyr sy'n brechu, neu eiriolwyr staff, i adnabod a mynd i'r afael â'r gwahanol rwystrau a hwyluswyr sy'n gysylltiedig â lefelau brechu.

Casgliad

Mae'r prosiect hwn wedi ein galluogi i adnabod y prif rwystrau a hwyluswyr i lefelau brechu rhag y fflw a COVID-19 ymysg gweithwyr BIPCTM. Mae'r gweithdai cyd-gynhyrchu yn seiliedig ar fframweithiau gwyddor ymddygiad wedi ein galluogi i adnabod rhai awgrymiadau sy'n debygol o sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl yn penderfynu derbyn eu brechlyn fflw a'u brechlyn COVID-19 blynyddol. Yn eu plith mae negeseuon a deunydd cyfathrebu yn seiliedig ar wyddor ymddygiad sy'n mynd i'r afael ag ystod o rwystrau. Gallai hyfforddi cymheiriaid BIPCTM i gynnal sgysiau cefnogol er mwyn hybu lefelau brechu fod yn arbennig o werthfawr i'r rheiny sydd â phryderon cymhleth.

